

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Rheolwr Uned Arolygu a Chyflewnol

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth




MARK MCNAMARA
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.



- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**

# Teitl y swydd: Rheolwr Uned Arolygu a Chyflewnol



Ydych chi’n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai’r swydd hon yw’r peth i chi. Rydym yn chwilio am **Rheolwr Uned Arolygu a Chyflewnol** i ymuno â thîm cyffrous sy’n tyfu.

**Cyflog:** UR3 (SCP 52-55) £60,855 - £63,965

**Cyfnod:** Parhaol

**Gweithio’n Hybrid**

**Lleoliad: un o’r lleoliadau isod:**
Conwy, Bangor, Llandrindod, Helygain

**Dyddiad cau:** 01/08/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Rydym yn chwilio am uwch reolwr profiadol i ymuno ag Uwch Dîm Rheoli'r Asiantaeth i gefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth ac i roi cyngor a mewnbwn i gyfeiriad strategol cyffredinol yr Asiantaeth. Byddwch yn arwain tîm amlddisgyblaethol o 57 o staff gan reoli’r swyddogaethau canlynol ar ran yr Asiantaeth ac yn unol â Chytundeb Asiantaeth Reoli Llywodraeth Cymru (WGMAA):

• Tîm Cyflawni Prosiectau Cyfalaf - Rheoli swyddogaethau cyflenwi cyfalaf yr Asiantaeth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru. Bod yn gyfrifol am oruchwylio darpariaeth a chydlynu holl brosiectau cyfalaf amlddisgyblaethol yr Asiantaeth o'r dylunio hyd at y cyfnod adeiladu.

• Timau Arolygu - Rheoli Archwilio Priffyrdd, Strwythurau ac Asedau Geotechnegol.



# Cyfrifoldebau

Fel aelod o Dîm Uwch Reolwyr yr Asiant ymgymryd â swyddogaethau rheoli strategol o ran rheolaeth gyffredinol yr Asiant.

Bod yn gyfrifol am gynllunio hirdymor a chynllunio strategol yn gysylltiedig â chyflwyno rhaglenni cyfalaf a rheoli archwilio asedau yn unol â gofynion LlC.

**Rheoli Rhaglen**
Goruchwylio a chydlynu'r broses o adnabod, hyrwyddo a blaenoriaethu rhaglenni blynyddol a rhaglenni pum mlynedd yr Asiant. Rheoli Tîm Noddwyr Cyflawni Prosiect Cyfalaf yr Asiant i ddatblygu a chyflawni rhaglen gyffredinol yr Asiant o brosiectau cyfalaf ar draws y rhwydwaith Cefnffyrdd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru (LlC). Galluogi cyflawni'r rhaglenni o brosiectau drwy gaffael a gweinyddu dylunio, adeiladu a gwasanaethu cadwyni cyflenwi. Adrodd am unrhyw gynnydd yn erbyn rhaglen yn uniongyrchol i Bennaeth Gwasanaeth yr Asiant.

**Rheolaeth Gaffael**
Arwain ar sefydlu Cadwyni Cyflenwi addas, gan gynnwys holl fframweithiau i gyflwyno Strategaeth Gaffael Gwaith Cyfalaf yr Asiant, yn unol â Rheoliadau Ariannol Cyngor Gwynedd a gofynion caffael LlC.. Rheoli Prosiectau Cyfalaf yr Asiant (£25M y flwyddyn), tua 450 prosiect unigol y flwyddyn, yn amrywio o £2k i £10m. Negodi a chytuno ar strwythur ffioedd a gwerth ar gyfer pob darpariaeth gwasanaeth ymgynghori mewnol gydag uwch reolwyr ymgynghorol. Sicrhau bod holl waith caffael ACGCC yn cydymffurfio gyda pholisi Llywodraeth Cymru.

**Systemau Rheoli Prosiect**
Adnabod a diffinio'n glir beth yw gofynion system rheoli prosiect yr Asiant. Dylunio, datblygu a gweithredu prosiect rheoli Microsoft SharePoint a K2 Black Pearl a systemau cronfa ddata a chronfa ddata gysylltiedig, gan gynnwys rhaglen i Gymru Gyfan ar ran LlC. Rheoli materion system hyfforddi a datblygu staff ar gyfer yr Asiant a saith darparwr gwasanaeth Awdurdod Partner a chadwyni cyflenwi'r sector preifat. Gwella systemau a chymhwysedd staff yn barhaus er mwyn cyflawni amcanion arfer gorau a diwallu anghenion yr WGMA.

**Rheoli Prosiectau**
Ymgymryd â rôl oruchwylio a chydlynu ar gyfer gweinyddu holl gontractau'r Asiant a sicrhau y cânt eu cyflawni yn unol â'r gofynion costau, amser ac ansawdd.

**Caffael a Gweinyddu Contract**
Gweithredu mewn swyddogaeth uwch wrth oruchwylio gweithrediad Gweinyddiaeth Contract cyffredinol yr Asiant.

**Rheoli Perfformiad Cadwyni Cyflenwi'r Asiant**

Cynorthwyo'r Rheolwr Busnes a Gweithrediadau Statudol, a staff perthnasol i ddatblygu systemau a gweithdrefnau ar gyfer System Rheoli Busnes yr Asiant.

Sicrhau bod systemau a gweithdrefnau yn cael eu harchwilio, a rheoli perfformiad y gadwyn gyflenwi wrth gyflawni'r prosiectau.

Adnabod meysydd o ddiffyg perfformiad a mynd i'r afael â hyn gan sicrhau bod y gweithredoedd cywir yn cael eu cyflawni a bod y materion yn cael eu dyrchafu fel y bo'n briodol.

Rheoli a datrys dadleuon cytundebol gan gynnwys prosesau trafodaeth, beirniadaeth a chyflafareddiad. Gweithredu dulliau o arolygu perfformiad a gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu gwelliant parhaus.



## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

### Meini prawf penodol i’r swydd

Sgiliau arwain tîm a dirprwyo.
Sgiliau penderfynu a negodi.
Gallu'ch ysgogi eich hun, yn frwdfrydig ac yn ymroddedig.
Sgiliau rhyngbersonol wedi’u datblygu’n dda.

### Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Gradd Peirianneg Sifil neu bwnc perthnasol.
Peiriannydd Sifil Siartredig neu gyfwerth.
Aelod corfforaethol o gorff proffesiynol perthnasol.

### Profiad perthnasol

Profiad o reoli timau amlasiantaethol ar lefel uwch, gan gynnwys datblygu a rheoli cyllidebau perthnasol.
Profiad rheoli prosiect ar lefel uwch.
Profiad sylweddol o reoli adnoddau.
Profiad mewn gweinyddu contractau ar lefel uwch gyda gwybodaeth lefel uchel o weithdrefnau contract NEC3.
Profiad o reoli risg.

### Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Gwybodaeth eang o reoli asedau seilwaith archwilio cefnffyrdd gan gynnwys ffyrdd deuol cyflymder uchel, strwythurau priffyrdd, systemau draenio ac asedau geodechnegol.
Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch gan gynnwys rheoliadau CDM.
Y gallu profedig o reoli prosiect a rheoli cyllid.
Sgiliau rheoli wedi’u profi.
Sgiliau caffael a gweinyddu contractau profedig.
Sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chyflwyno da.
Yn gwbl wybodus o TG.
Trwydded yrru gyfredol

### Gofynion ieithyddol

Mae’r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ac Saesneg yn ddymunol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a




- 28 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.




- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.